Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad i'r wasg

21 Ebrill 2009

Diffyg cynllunio strategol yn niweidio effaith hyfforddiant i weithwyr ieuenctid

Mae rhaglenni hyfforddi awdurdodau lleol ar gyfer gweithwyr ieuenctid yn gyffredinol dda. Fodd bynnag, yn ôl adroddiad Estyn a gyhoeddir heddiw, mae angen cynllunio strategol mwy effeithiol os yw buddion hyfforddiant gwell yn mynd i dreiddio'n llawn i wasanaethau gwell i bobl ifanc. Canfu arolygwyr bod cyfathrebu cyffredinol wael rhwng gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch amcanion strategol a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae hyn yn rhwystro gwasanaethau ieuenctid rhag datblygu cynlluniau gweithlu da ac effeithiol ar lefel leol a rhanbarthol ledled Cymru.

Dywed Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, "Mae gweithwyr ieuenctid yn chwarae rhan bwysig gan ddarparu cefnogaeth a chyngor i bobl ifanc mewn clybiau ieuenctid, ar y strydoedd ac mewn ysgolion. Mae strategaeth gwasanaethau ieuenctid genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio ar gydweithio rhanbarthol a datblygu'r gweithlu. Yr her yn nawr yw i Lywodraeth y Cynulliad a gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol wella cyfathrebu fel eu bod yn cydweddu blaenoriaethau cenedlaethol y grant hyfforddi blynyddol ag anghenion lleol yn effeithiol."

Mae sawl enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth rhwng rheolwyr gwasanaethau ieuenctid sy'n gyfrifol am hyfforddiant, ond mae'r arfer yn anghyson. Canfu arolygwyr, lle mae swyddogion hyfforddi o wahanol ranbarthau yn cydweithio'n dda â'i gilydd, mae hyn yn aml oherwydd perthynas waith anffurfiol hirsefydledig, yn hytrach nag o ganlyniad i gynllunio strategol. Mae angen i wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol wella cynlluniau strategol

datblygu'r gweithlu ar sail ranbarthol, er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus i wasanaethau a manteisio i'r eithaf ar adnoddau.

Mae hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau ar gyfer gweithwyr ieuenctid yn aml yn arwain at ystod well o wasanaethau o ansawdd gwell i bobl ifanc. Mae'r holl hyfforddeion yn credu eu bod wedi dysgu llawer o hyfforddiant cymhwyso ac maent yn mwynhau eu cyrsiau. Fodd bynnag, nid yw'r hyfforddiant yn cynnwys digon o bwyslais ar ddeall polisïau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r modd y maent yn effeithio ar wasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae pob gwasanaeth ieuenctid yn monitro ac yn arfarnu ansawdd yr hyfforddiant y mae'n ei ddarparu trwy gasglu data ar gynnydd gweithwyr dan hyfforddiant, cadw cofnodion a dadansoddi boddhad defnyddwyr. Fodd bynnag, ychydig iawn o arfarnu systematig sy'n digwydd o hyd i fesur effaith hyfforddiant ar welliannau i bobl ifanc ac ychydig iawn o'r wybodaeth hon sy'n cael ei rhannu'n rhanbarthol. Mae hyn yn golygu nad yw'r rhan fwyaf o ranbarthau'n gwybod yn glir iawn ymhle y mae angen iddynt ffocysu eu profiad a'u hadnoddau ar y cyd er mwyn gwella ansawdd y canlyniadau ar gyfer pobl ifanc yn eu hardal.

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464

Nodiadau i Olygyddion:

Am yr adroddiad

Mae adroddiad Estyn 'Pa mor dda yw'r hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymorth ieuenctid yng Nghymru? ' ar gael yn llawn yn http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports.asp

Mae sail dystiolaeth yr adroddiad yn tynnu ar:

- Gyfweliadau gyda phrif swyddogion ieuenctid, swyddogion hyfforddiant a thiwtoriaid cyrsiau o bob un o'r 22 gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru, yn ogystal â gweithwyr dan hyfforddiant o'r gorffennol a'r presennol ar y rhan fwyaf o gyrsiau.
- Dogfennau helaeth a ddarparwyd gan bob gwasanaeth ieuenctid ar y cyrsiau a gwblhawyd yn ddiweddar a'r cyrsiau cymwysterau presennol ar lefelau 2 a 3.

Yn 2006, ymestynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gwmpas adran 75 Deddf Addysg a Sgiliau 2000. O ganlyniad, daeth y ddeddfwriaeth â'r gwaith o addysgu a hyfforddi gweithwyr ieuenctid a chymunedol gan

sefydliadau addysg uwch (AU) o fewn cylch gwaith Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2009-2010, bydd Estyn yn cynnal arolwg pellach ac yn llunio adroddiad ar hyfforddiant cymwysterau i weithwyr ieuenctid a ddarperir trwy golegau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch.

Am Estyn

Estyn yw'r Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu gwasanaethau arolygu a chyngor annibynnol o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod, trwy arbenigedd ein staff, fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi (dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan www.estyn.gov.uk